YSGOL DYFFRYN CONWY

# CAMU 'MLAEN

# STEPPING FORWARD

# 2025




CROESO CYNNES I FLWYDDYN 7

2025

A WARM WELCOME TO YEAR 7

# Dyddiadau Pwysig!
*Important Dates!*



## Diwrnodau Pontio
## *Transition Days*

*30ain o Fehefin - 2il o Orffennaf 2025*

*30th of June - 2nd of July 2025*

## Noson Rieni Bl.6
## *Year 6 Parents Evening*

Nos Fawrth 1af o Orffennaf 2025

*Tuesday Evening 1st of July 2025*

## CYCHWYN YN YDC!
## *STARTING IN YDC!*

*Dydd Mawrth 2il o Fedi 2025*

*Tuesday 2nd of September 2025*

# Gair o Groeso gan y Pennaeth
# *A Welcome from the Head*



**Mr Owain  Gethin Davies**

Yn gyntaf oll croeso mawr i chi i Ysgol Dyffryn Conwy! Yr wyf yn edrych ymlaen fel pennaeth ar yr ysgol i gyfarfod pob un ohonoch. Yr wyf yn siwr bod gennych lawer o gwestiynau a phryderon wrth symud o'r Ysgol Gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae'n debyg fod gennych deimladau cymysg ar hyn o bryd, tristwch eich bod yn gorffen cyfnod yn yr Ysgol Gynradd ond eto cyffro eich bod yn symud i Ysgol Dyffryn Conwy. Rydym hefyd yn deall fod y cyfnod yma yn gallu bod yn ateb yn anodd gyda nifer o gwestiynau i'w hateb ac efallai ambell bryder. Bydd y llawlyfr yma yn ateb nifer o'r cwestiynau a'r ofnau hynny. Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn ysgol gartrefol hapus gyda sawl cyfle arbennig i chi ddatblygu mewn sawl maes.

Hoffwn ddymuno'r gorau i chi yn ystod y misoedd nesaf ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda chi er mwyn sicrhau bod eich cyfnod yma nid yn unig yn llwyddianus ond hefyd yn gyfnod hapus iawn.

*First of all, a very warm welcome to Ysgol Dyffryn Conwy! As the headteacher, I'm looking forward to meeting you. I'm sure you have lots of questions and concerns as you move from primary to secondary school.*

*You probably have very mixed feelings right now, sad that your time in Primary School is coming to an end but also excited about moving to Ysgol Dyffryn Conwy. We also understand that this can be a difficult time, with many questions to be answered and perhaps some concerns. This handbook will answer many of those questions and fears. Ysgol Dyffryn Conwy is a happy, homely school that offers many special opportunities for you to develop in many areas. I wold like to wish you all the best in the coming months and I look forward to working with you to ensure that your time here is not only successful but also a very happy one.*

# Uwch Dim Arwain
## *Senior Leadership Team*



**Mr Owain Gethin Davies**
Pennaeth / Head



**Mrs Eleri Gwyn**
Dirprwy Bennaeth / Deputy Head



**Mr Roger Beech**
Pennaeth Cynorthwyol
Assistant Head



**Mr Jason Turner**
Pennaeth Cynorthwyol
Assistant Head

# Amserlen Diwrnod Arferol
## *Usual Days Timetable*

Cyrraedd yr ysgol yn brydlon cyn 8:50 yb / Arrive at school by 8:50

Cewch gyfarfod eich cyd-ddisgyblion/ You can meet your classmates

08:55 - 09:15
Cyfnod cofrestru gyda'ch tiwtor neu gwasanaeth / Registration period with your tutor or morning service

09:15
10:05
Gwers 1
Lesson 1

10:05 - 10:55
Gwers 2
Lesson 2

10:55 - 11:10
Amser Egwyl
Break Time

11:10 - 12:00
Gwers 3
Lesson 3


12:00 - 12:50
Gwers 4
Lesson 4

12:50 - 13:35
Amser Cinio
Lunch Time

13:35 - 14:25
Gwers 5
Lesson 5


14:25 - 15:15
Gwers 6
Lesson 6

15:15
Amser mynd adref
Time to go home




# ***Cas Pensiliau / Pencil Case***


1. Beiros / Biros
   - Du, Gwyrdd a Glas / Black, Green and Blue




2. Pensil HB a Phensiliau Lliw / HB Pencil & Colouring Pencils

3. Pren Mesur / Ruler
   - 30cm




4. Chwalwr / Eraser




5. Onglydd / Protractor



6. Cwmpas / Compass



7. Cyfrifiannell Wyddonol / Scientific Calculator



8. Sgwaryn / Set Square

9. Miniwr / Sharpener

10. Amlygwr / Highlighter

11. Glud / Glue stick





# Gwisg Ysgol
# Ysgol Dyffryn Conwy
# *School Uniform*

**Dyma wisg ysgol - Ysgol Dyffryn Conwy:**
**Here is Ysgol Dyffryn Conwy's uniform:**

- Siwmper 'V-neck' Liw 'Burgundy' gyda Logo'r ysgol mewn aur
  Burgundy V-neck jumper with the school logo embroidered in gold
- Crys traddodiadol gwyn gyda choler a botwm uchaf
  Traditional white shirt with collar and a top button
- Tei burgundy gyda streipiau aur
  Burgundy tie with gold stripes
- Trowsus du plaen wedi ei deilwro neu sgert bletiog ddu (**NI** chaniateir jîns, leggings, trowsus chwaraeon na chombats).
  Plain black tailored trousers or pleated black skirt (Jeans, Leggins, Tracksuit bottoms or combats are **NOT** permitted)
- Esgidiau Du plaen
  Plain black shoes
- Cewch wisgo dim ond un fodrwy ac un par o glystlysau bychain. ***DIM tlysau trwyn.***
  You can only wear one ring and pair of small earrings. ***NO nose rings/studs***





Dyma enghreifftiau o ddisgyblion yn gwisgo'r wisg llawn.

Here are examples of pupils wearing the correct full school uniform.

# <u>Canllawiau Gwisg Ysgol Blwyddyn 7-11</u>
# <u>*School Uniform Guidelines for Years 7-11*</u>

| Eitem/Item | Disgrifiad/Manylion | Llun/Image | Description/Details |
|---|---|---|---|
| Crys Ysgol Gwyn<br><br>White School Shirt | Disgwylir i bob disgybl wisgo crys gwyn ffurfiol gyda botymau at y gwddw a choler ffurfiol i'r ysgol. Caniateir crys llewys byr neu hir. |  | Every pupil is expected to wear a formal white collared shirt with buttons to the collar. These can be long or short sleeved |
| Tei Ysgol<br><br>School Tie | Mae'r tei ysgol yn un Burgundy gyda streipiau Aur. Gellir archebu'r tei gan ein 4 cyflenwr gwisg neu drwy'r ysgol. Disgwylir i'r tei gael ei wisgo yn briodol ar bob cyfrif. | | The school tie is Burgundy with Gold stripes. It can be purchased from any of our 4 suppliers or through the school. The tie should be correctly worn at all times |
| Siwmper Ysgol<br><br>School Jumper | Siwmper Burgundy gwddw 'V' gyda logo'r ysgol ar y blaen. Gall y simper gael ei archebu gan ein 4 cyflenwr gwisg neu drwy'r ysgol.<br>**Mae angen y siwmper ysgol yn yr ysgol POB dydd** | | The school jumper is a BUrgundy 'V' neck jumper with the school logo in Gold on the chest. Again it can be purchased through any of our 4 suppliers<br>**The school jumper is needed in school EVERY day.** |
| Trowsus/Sgert Ysgol<br><br>School Trousers/Skirt | Trowsus du wedi eu teilwra neu sgert bletiog<br>**Disgwylir i'r sgert gael ei gwisgo at y pen-glin, neu'n hirach/ Ni chaniateir trowsusau tynn, leggings, chinos, jeans neu debyg.**<br>*** Caniateir shorts du wedi eu teilwra pan fydd y tywydd yn gynner yn nhymor y Haf.* | | The black tailored trousers or black pleated skirt<br>**The skirt should be worn to the knee or longer. Jeans, chinos, leggings or tight trousers are not permitted.**<br><br>*** Black tailored shorts will be permitted during the Summer term.* |
| Esgidiau<br><br>Shoes | Dylid gwisgo esgidiau du plaen a fflat - dim logo na lliw. Caniateir bŵts at y ffêr, ond dim uwch. **Dim esgidiau ymarfer**. Dylai'r esgidiau fod yn ddigon cryf ar gyfer y diwrnod ysgol<br><br>**Sanau gwyn/du neu deits du yn unig.** |  | Shoes should be plain black, flat with black soles with no logos or colour. Boots up to the ankle are permitted but no higher.<br>**No trainers allowed.**<br>Shoes must be sturdy enough to support during the school day.<br>**Plain white/black socks or black tights only.** |
| Ychwanegol<br><br>Additional | Caniateir un clust tlws ym mhob clust yn unig.<br>**<u>Ni chaniateir tlysau yn y twyn nag ewinedd ffug.</u>**<br>**<u>Ni chaniateir lliwiau gwallt annaturiol.</u>**<br>**<u>Colur naturiol yn unig.</u>** | | One stud earring per ear only is permitted.<br>**<u>Facial piercings of any kind and false nails are not permitted.</u>**<br>**<u>Un-natural hair colour is not permitted.</u>**<br>**<u>Natural looking makeup only</u>** |

# Gwisg Addysg Gorfforol
# Physical Education Uniform

## Gorfodol / Compulsory

- Crys T Marwn - Logo ysgol / Maroon T Shirt - with school logo.

## O unrhyw siop addas / From any suitable shop
**(Ddim efo logo ysgol / Not with school logo)**

- Siorts / Sgorts Du - Black Shorts / Skorts
- Joggers / Leggings - Du / Black
- Sanau Du / Black Socks
- Esgidiau Ymarfer Du / Black Trainers
- Shin pads & Gum shield (er diogelwch / for safety)



@PEDyffrynConwy

## Dewisol / Optional

- Esgidiau pêl-droed / Football boots
- Crys 'haen sylfaen' / Base layer T Shirt (Du / Black)
- Siaced 1/4 zip Du hefo logo'r ysgol / Black 1/4 zip jacket - with school logo.





# Prynu'r wisg ysgol
## *Buying the school uniform*

Mae'r wisg ysgol newydd a'r wisg Addysg Gorfforol ar gael i'w prynu yn y llefydd canlynol:

*The new school uniform and Physical Education kit are available to buy in the following places:*



### Brodwaith

Uned 1-7 Yr Hen Stablau, Pentrefoelas, Betws-Y-Coed, Conwy, LL24 0HT

01690 770393

01690 770693

admin@brodwaith.co.uk

www.brodwaith.co.uk

### Boppers Boutique

4-6 Abergele Road, Colwyn Bay, Conwy LL29 7NN

01492 534421

info@boppers.co.uk



### Ar y Gweill

24 Heol Yr Orsaf, Llanrwst, Conwy, LL26 0EP

07875 634151

### School Talk

24 Madoc Street, Llandudno, Conwy, LL30 2TL

01492 702757

YSGOL DYFFRYN CONWY



# PYNCIAU / SUBJECTS

## Ieithoedd / Languages

**Mathemateg a Rhifedd**
Mathematics & Numeracy

**Saesneg**
English

**Cymraeg**
Welsh

**Ffrangeg**
French

**Dyniaethau**
Humanities

**Celfyddydau Mynegiannol**
Expressive Arts

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg / Science & Technology

**Gwyddoniaeth**
Science

**Technoleg Gwybodaeth**
Information Technology

**Technoleg**
Technology

**Iechyd a Lles**
Health and Wellbeing




# Presenoldeb /*Attendance*


- Disgwyliwn y bydd pob disgybl yn anelu at 100%
- Mae'r tabl isod yn ddangos effaith absenoldeb ar eich addysg

## Ysgol Dyffryn Conwy

## PRESENOLDEB



| Os yw presenoldeb eich plentyn yn... | Canllawiau cenedlaethol |
| --- | --- |
| 95% - 100% | Rhagorol. Cyfle gorau o lwyddiant. Mae'ch plentyn yn cymryd mantais lawn o bob cyfle dysgu. |
| 90% - 95% | Boddhaol. Mae'n bosib bydd angen i'ch plentyn gymryd amser i ddal i fyny gyda gwaith. |
| 85% - 90% | Achos i bryderu. Mae'n bosib bydd angen i'ch plentyn dderbyn cymorth ychwanegol i ddal i fyny gyda gwaith. |
| 80% - 85% | Anfoddhaol. Mae'n bosib y caiff presenoldeb gwael eich plentyn effaith arwyddoraol ar ddysgu. |
| Is na 80% | Posibilrwydd fod eich plentyn yn colli allan ar addysg eang a chytbwys. |



## MAE PRESENOLDEB YN BWYSIG



| Os yw presenoldeb eich plentyn yn ystod y flwyddyn ysgol... | Byddai eich plentyn wedi colli tua... | Neu byddent wedi colli tua... |
| --- | --- | --- |
| yn 95% | 9 Diwrnod o'r ysgol | 54 o wersi |
| yn 90% | 19 Diwrnod o'r ysgol | 114 o wersi |
| yn 85% | 28 Diwrnod o'r ysgol | 168 o wersi |
| yn 80% | 38 Diwrnod o'r ysgol | 228 o wersi |



ANOGWCH BRESENOLDEB YSGOL

GYDA'N GILYDD BYDDWN YN CYRRAEDD EIN POTENSIAL

# Presenoldeb /*Attendance*

- We expect all pupils to aim for 100%
- The table below shows the effect of attendance

## Ysgol Dyffryn Conwy

## ATTENDANCE

| If your child's attendance is... | National Guidelines |
|---|---|
| 95% - 100% | Excellent. Best chance of success. Your child takes full advantage of every learning opportunity. |
| 90% - 95% | Satisfactory. It is possible that your child will need to make time to catch up with work. |
| 85% - 90% | Cause for concern. It is possible that your child will need to receive additional support to catch up with work. |
| 80% - 85% | Unsatisfactory. Your child's poor attendance may have a significant impact on learning. |
| Less than 80% | Possibility that your child is missing out on a broad and balanced education. |

## ATTENDANCE IS IMPORTANT



| If your child's attendance for the school year... | Your child would have missed around... | Or they would have missed... |
|---|---|---|
| is 95% | 9 Days of school | 54 lessons |
| is 90% | 19 Days of school | 114 lessons |
| is 85% | 28 Days of school | 168 lessons |
| is 80% | 38 Days of school | 228 lessons |



PLEASE ENCOURAGE SCHOOL ATTENDANCE

TOGETHER WE WILL REACH OUR POTENTIAL


# Amserlen / Timetable

Dyma enghraifft o amserlen wythnos dosbarth ym Mlwyddyn 7.

This is an example of a weekly timetable for a Year 7 class.

| | LLUN<br>MONDAY | MAWRTH<br>TUESDAY | MERCHER<br>WEDNESDAY | IAU<br>THURSDAY | GWENER<br>FRIDAY |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | CYMRAEG<br>WELSH | SAESNEG<br>ENGLISH | GWYDDONIAETH<br>SCIENCE | CYMRAEG<br>WELSH | SAESNEG<br>ENGLISH |
| 2 | MATHEMATEG<br>MATHEMATICS | MATHEMATEG<br>MATHEMATICS | A GORFFOROL<br>PH EDUCATION | TECHNOLEG<br>TECHNOLOGY | CERDD<br>MUSIC |
| EGWYL<br>BREAK | EGWYL<br>BREAK | EGWYL<br>BREAK | EGWYL<br>BREAK | EGWYL<br>BREAK | EGWYL<br>BREAK |
| 3 | CERDD<br>MUSIC | CYMRAEG<br>WELSH | CELF<br>ART | DAEARYDDIAETH<br>GEOGRAPHY | A GORFFOROL<br>PH EDUCATION |
| 4 | HANES<br>HISTORY | TECHNOLEG<br>TECHNOLOGY | MATHEMATEG<br>MATHEMATICS | FFRANGEG<br>FRENCH | GWYDDONIAETH<br>SCIENCE |
| CINIO<br>LUNCH | CINIO<br>LUNCH | CINIO<br>LUNCH | CINIO<br>LUNCH | CINIO<br>LUNCH | CINIO<br>LUNCH |
| 5 | A GREFYDDOL<br>RELIGIOUS ED | DRAMA | SAESNEG<br>ENGLISH | SAESNEG<br>ENGLISH | CYMRAEG<br>WELSH |
| 6 | GWYDDONIAETH<br>SCIENCE | TGCh<br>ICT | FFRANGEG<br>FRENCH | MATHEMATEG<br>MATHEMATICS | TECHNOLEG<br>TECHNOLOGY |





# Sylwadau Disgyblion Blwyddyn 7
## *Year 7 Pupils' Comments*

Mewn ychydig o wythnosau byddwch yn paratoi ar gyfer cyfnod newydd yn eich bywydau. Mae'n debyg fod rhan fwyaf ohonoch yn edrych ymlaen i ddechrau'r Ysgol Uwchradd, ond mae'n berffaith naturiol i fod yn bryderus am rai pethau.

Darllenwch yr hyn sydd gan rhai o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Conwy i'w ddweud am eu profiad nhw o ddechrau yn yr Ysgol Uwchradd.

In a few weeks you will be preparing for a new chapter. Most of you will be excited about starting Secondary School. It's likely that most of you will have a few anxieties about being in a new school, everyone is worried about something.

Read what these pupils from Ysgol Dyffryn Conwy had to say about their experience of starting Secondary School.




O'r diwrnod y gwnes roi fy nillad newydd Ysgol Dyffryn Conwy ymlaen am y tro cyntaf, doeddwn methu aros i'r ysgol ddechrau. Mae o'n naturiol i deimlo'n ofnus am symud o ysgol gynradd bach i ysgol uwchradd, ond wir does dim byd i boeni amdano!

Roedd y tridiau cyn gwyliau'r haf yn wych er mwyn gadael inni ddechrau cyfarfod ffrindiau newydd cyn cychwyn YDC, a helpu i wneud y dyddiau cyntaf yn Medi yn hwylus a cyffrous. Yn y wythnosau cyntaf cawsom fynd yn gynnar am ginio i fod yn siwr ein bod yn cael bwyd mewn awyrgylch newydd ac mae'r bwyd yn dda iawn! Cyfarfod criw o ffrindiau newydd oedd un o'r pethau roeddwn yn edrych ymlaen ato fwyaf. Un o'r gwersi roeddwn yn barod i daclo oedd Bwyd a Maeth sef coginio, hefyd cael mwy o ymarfer corff.

Y tip pwysicaf yn fy marn i yw sylweddoli bod llawer o bobl eisiau helpu i sicrhau bod plant newydd blwyddyn 7 yn cael digon o gefnogaeth a sylw er mwyn setlo mewn i'n ysgol gwych ni, Ysgol Dyffryn Conwy. CROESO CYNNES I BAWB!

Hi, I moved to Wales from Oxfordshire four years ago and started learning Welsh two years ago in Ysgol Bro Gwydir. So going into Ysgol Dyffryn Conwy, I thought it would be a big problem. And when I started Year 7 in a big new school with a timetable and new teachers and new people I thought I was all on my own. Then, I realised that everyone else in Year 7 was in the exact same position as I was. But the thing that helped me and lots of other people was the HWB. The HWB helped me loads because they have lots of amazing teachers that can help anyone but the best thing about the HWB is they will help anyone if they ask for help. And if you think some of the subjects are boring that your friends think are "cool", that's okay because different people like different things. And if I could give the new Year 7's one "tip" it would be not to be scared of the older years because they have all been in the same position and most of them are willing to help you.



# Sylwadau Disgyblion Blwyddyn 7

## *Year 7 Pupils' Comments*




Roeddwn i mor gyffrous i ddod fyny i Ysgol Dyffryn Conwy. Doeddwn i methu disgwyl i gael gwneud ffrindau newydd a cael gwneud pynciau ychwanegol doedden ni ddim yn neud yn ysgol gynradd e.e Ffrangeg a Dylunio Technoleg. Rhai "tips" i ddod fyny i Ysgol Dyffryn Conwy ydi gwnewch eich gorau ym mhob pwnc ac yn mhob ddarn o waith, a gwneud ffrindiau gyda pobl yn eich dosbarth a'ch blwyddyn.

Roeddwn yn hynod o bryderus am gychwyn yn YDC,roedd meddwl am adael fy ysgol fach wledig a mynychu ysgol gyda cannoedd o ddisgyblion a'r mwyafrif o rheini yn hyn ac yn fwy na fi yn codi ofn mawr arnai. Wedi cael y diwrnodau trosglwyddo roeddwn yn teimlo chydig yn well. Cefais gefnogaeth gan yr ysgol, fy rheni a nyrs yr ysgol i helpu i mi ymdopi gyda'r newid mawr.

Cerddasis i mewn ar fy niwrnod cyntaf yn teimlo braidd yn sal!! Ond unwaith eto gorfodais fy hyn i fynd ac doedd y profiad DDIM mor ddrwg ac yr roeddwn yn meddwl y byddai. Doedd y dyddiau cyntaf ddim yn hawdd ond gyda cefnogaeth fy rhieni, a ffrindiau dechreuodd pethau wella.

Roeddwn yn edrych ymlaen i gael mynediad i'r dosbarth celf ar holl adnoddau sydd ar gael yno. Mae cael symud o amgylch yr ysgol yn dda gyda gwersi yn mynd yn eithaf sydyn ar diwrnod drosodd mewn dim.

Dyma fy sylwadau a rhai tips:-

- Mi fydd y diwrnodau cyntaf yn anodd ond gyda dyfarbarhad a chydig o wydnwch byddwch yn setlo ac yn arfer i drefn yr ysgol. Os ydw i yn gallu gwneud hyn gall unrhyw un wneud!
- Cofiwch droi at oedolion yr ydych yn teimlo'n gyfforddus gyda nhw ac egluro os ydych yn ansicr neu cael amser caled.
- Mae lawer o bethau newydd i arfer gyda nhw OND peidiwch a teimlo bod angen arfer gyda nhw i gyd ar unwaith.
- Mae'n iawn i deimlo'n bryderus, mae hyn yn hollol arferol.







One of the things I was looking forward to the most was the variety of lessons and getting to know new people. The biggest worry I had was learning the layout of the new, massive school but at least I had friends to help me when I got lost. The first day I felt excited and was looking forward to learning new things. I was excited to get a clean slate where not a lot of people know me. To settle into the school I suggest that you learn your timetable, given to you on the first day. It is also important to be on time to school and to lessons. The word RESPECT is really important at YDC.

# Gweithgareddau Cerdd a Drama
## *Music and Drama Activities*

**Mae cyfleoedd pob blwyddyn i berfformio - Eisteddfod, Côr, Sioe Gerdd, Cyngherddau...**

**There are opportunities every year to perform - Eisteddfod, Choir, Musicals, Concerts...**

**Dewch i ymuno!**











# Amser Cinio
# *Lunch Time*




Mae gwahanol ffyrdd y gallwch gael cinio yn yr ysgol.
- Bocs Bwyd
- Cinio yn y ffreutur (Bwyd poeth ac oer)
- Caffi Bach (Bwyd ar wib)
- Caffi'r Ganolfan Hamdden (Bwyd Poeth ac Oer)

Os ydych am brynu cinio yn yr ysgol mae 2 ffordd o dalu drwy y system di-arian parod:
1. System biometrig - Cofrestru trwy blaen eich bys
2. Cerdyn cinio - Dangoswch hwn wrth dalu.

Gallwch rhoi arian drwy system ar lein 'Parent Pay'. Ceir mwy o wybodaeth am y system biometrig ar wefan yr ysgol. Darperir gwybodaeth hefyd yn ein pecyn anwytho gan gynnwys ffurflen caniatad ar gyfer y system biometrig 'Parent Pay' a gwybodaeth bellach am sut mae'r system yn gweithio. Gallwch roi arian yn eich cyfrif drwy ddefnyddio'r peiriannau yn y Ffreutur a'r Bloc Celf.
Mae'r peiriannau yn cymryd £2.00, £1.00, 50c 20c a 10c

**There are different ways you can have your lunch at school:**
- **Bring your own lunchbox**
- **Lunch in the canteen (Hot and Cold food)**
- **'Caffi Bach' (Little Cafe) for food on the go**
- **Leisure Centre Cafe (Hot and Cold food)**

ParentPay

**If you want to buy your lunch in school there are 2 ways to use the cashless system:**
1. **Biometric System - This means you pay by logging on with your fingerprint**
2. **Lunch card - Show this when you pay at the till**

**You can pay through the online Parent Pay system. More information about the biometric system and Parent Pay can be found on our website and in your induction pack. This includes a consent form for the biometric system and 'Parent Pay' and further information about how th sytem works. You can put money on your account through using the machines in the Canteen and Art Block.**
**The machines accept £2.00, £1.00, 50p, 20p, and 10p.**



Dyma luniau o'r peiriant system biometrig mae'r ffreutur, caffi bach a chaffi'r ganolfan hamdden yn ddefnyddio. / Here is a picture of the biometric machine used in the canteen and cafes



Rhedir y Ffreutur gam gwmni Sodexo sydd yn rhedeg y safle. / The canteen is managed by Sodexo, our site management company.

## Beth Arall? / *What Else?*



EISTEDDFOD YSGOL
SCHOOL EISTEDDFOD

CYNGOR CHWARAEON
SPORTS COUNCIL

WYTHNOS WEITHGAREDDAU
ACTIVITY WEEK

CLWB GWAITH CARTREF
HOMEWORK CLUB

GWEITHGAREDDAU YR URDD
URDD ACTIVITIES

TIMAU CHWARAEON
SPORTS TEAMS

CLWB CYMDEITHASU
SOCIALISING CLUB

CYNGOR YSGOL
SCHOOL COUNCIL

TEITHIAU ADDYSGOL
SCHOOL TRIPS

SIOEAU CERDD A
PHERFFORMIADAU
MUSICALS AND
PERFORMANCES

GWAITH ELUSENOL
CHARITY WORK



GWEITHGAREDDAU
CHWARAEON AMRYWIOL
AMSER CINIO AC AR ÔL YSGOL.
VARIED SPORTS ACTIVITIES AT
LUNCH TIME AND AFTER
SCHOOL.

# DISGWYLIADAU'R

## Ystafell Ddosbarth

*Cymraeg yw iaith yr ysgol a phob gweithgaredd yn yr ysgol*

1. Rhaid cyrraedd y wers yn brydlon ac ar amser.
2. Dilynwch gyfarwyddiadau'r aelod staff y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac ewch i mewn i'r ystafell yn dawel.
3. Gosodwch eich offer ar y bwrdd. Bag ar y llawr a chot ar y gadair. Parchwch adnoddau'r ystafell.
4. Mae hawl gan bob disgybl i gael addysg dda. Rhaid parchu pawb:
   - ✓ Pan fydd yr aelod staff yn hawlio sylw, rhaid ymdawelu yn syth a gwrando.
   - ✓ Codwch eich llaw cyn gofyn am ateb cwesitwn.
   - ✓ Gwrandewch ar yr aelod staff ac ar gyfraniad disgyblion eraill.
5. Gwnewch eich gorau a chyfranwch ymhob tasg neu weithgaredd.
6. Cwblhewch bob darn o waith hyd eithaf eich gallu.
7. Ar ddiwedd y wers, rhaid gadael yn dawel pan fydd yr aelod staff yn eich rhyddau.

### Offer ac adnoddau angenrheidiol

Dylech ofalu fod yr offer cywir gennych ym mhob gwers.

Bydd angen adnoddau cyffredinol i bob gwers ond offer mwy penodol i wersi eraill.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod popeth sydd angen gyda chi

YSGOL DYFFRYN CONWY

# Teithio i'r Ysgol
# *Travelling to School*

Mae disgyblion Ysgol Dyffryn Conwy yn teithio i'r ysgol mewn sawl ffordd gwahanol gan gynnwys cerdded, dod mewn car, ar feic neu fws ysgol.

Pupils at Ysgol Dyffryn Conwy travel to school in many different ways including walking, by car, bike or school bus.

## Cludiant Ysgol
## School Transport

**Cyngor Sir Conwy sydd yn gyfrifol am gludiant ysgol.**
**Conwy County Council is responsible for school transport.**

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Mae'n bosib cael cludiant am ddim i'r ysgol yn dibynnu ar ba mor bell sydd angen cerdded i'r ysgol / neu unrhyw anghenion ychwanegol.

**Bydd angen i'ch rhieni / gwarcheidwad wneud cais ar-lein ar wefan www.conwy.gov.uk er mwyn gallu derbyn mynediad at gludiant ysgol am ddim cyn i'r flwyddyn ysgol gychwyn**.

Free school transport is possible depending on how far you have to walk to school / or any any additional needs.

**Your parent(s) / guardian(s) will need to apply online at the www.conwy.gov.uk website to be able to access free school transport before the school year begins.**

# Arweinydd Cynnydd Blwyddyn 7
## *Year 7 Progress Leader*

**Helo a chroeso i bob un ohonoch yma i Ysgol Dyffryn Conwy!**

**Fy enw i yr Mrs Leah Jones a rydw i yn Arweinydd Cynnydd Bl. 7 ac hefyd yn athrawes Hanes yn yr ysgol. Rydw i yn gweithio yn yr ysgol ers 10 mlynedd bellach ac hyd yn oed yn gyn-disgybl felly yn adnabod yr ysgol yn dda!**

**Edrychaf ymlaen yn ofnadwy i ddod i adnabod pob un ohonoch sydd yn dod atom fis Medi. Fy rol i fel Arweinydd Cynnydd i'w sicrhau eich bod y broses o symud o'r cynradd i'r uwchradd mor hawdd a sydd yn bosibl. Hefyd tra yma ym Mlwyddyn 7 eich bod yn hapus, diogel ac yn gwneud CYNNYDD.**



**Hello and welcome to Ysgol Dyffryn Conwy!**

**My name is Mrs Leah Jones and I am the Year 7 Progress Leader and a History at the school. I have worked at Ysgol Dyffryn Conwy for 10 years and I am also an ex-pupil and therefore I know the school well**

**I am so excited to get to know each one of you coming up in September. My role as Progress Leader is to ensure that the process of moving from primary to secondary is as smooth as possible. Also whilst here in Year 7 I am responsible for making sure that you are happy, safe and most importantly making PROGRESS!**

**Fe fydd yna 4 dosbarth ar gyfer Blwyddyn 7 mis Medi 2025.**

**There will be 4 classes for Year 7 in September 2025.**

**7 Garmon**

**7 Machno**

**7 Pandy**

**7 Tudur**

**Fe fydd athro / athrawes yn diwtor ar bob dosbarth.**
Byddwch yn gweld yr athro/awes yna bob bore yn ystod amser cofrestru.

**There will be a teacher as a tutor for each class.**
You will see that teacher every morning during registration.

# Map o'r Ysgol
## *School Map*



# Yr Hwb
# *The Hwb*



Helo! ***Mrs Rhian Evans*** ydw i a rhan o fy ngwaith i yw cefnogi disgyblion mewn llawer o wahanol ffyrdd. Gallwch ddod o hyd i fi yn “Yr Hwb”

Hello! My name is ***Mrs Rhian Evans*** and part of my role is to support pupils in a variety of different ways. You will be able to find me in “The Hwb”

Bydd rhai ohonoch yn cael cyfle i ddod i’r **Hwb** yn ystod amser cofrestru er mwyn parhau i ddatblygu eich sgiliau Llythrennedd neu Rhifedd. Cewch gyd-weithio hefo’r cymorthyddion caredig sydd ganddom yma yn Ysgol Dyffryn Conwy ac mae aelodau brwdfrydig o’r 6ed dosbarth wastad yn barod i helpu hefyd.

Some of you will have the opportunity to come to the **Hwb** during registration time to further develop your Literacy and Numeracy skills. You will be able to work with our kind Teaching Assistants and we also have enthusiastic 6th formers helping too.

Mae’r llawer o’r **Cymorthyddion** gwych yn cefnogi disgyblion yn y dosbarthiadau hefyd - cofiwch ofyn os yda chi eisiau help; mae nhw bob amser yn hapus i ateb unrhyw gwestiwn.

Many or our wonderful **Teaching Assistants** support pupils in the lessons too - remember to ask if you need help; they are always happy to answer any of your questions.






Rydym yn ffodus o arbenigedd Dyslecsia ***Miss Lucy Parry a Mrs Vanessa Rose***. Mae’r ddwy yn cydweithio yn wythnosol gyda gwahanol ddisgyblion. Mae eu sesiynau yn rai hwyliog ac yn gymysgfa dda o daflenni gwaith, gemau a gweithgareddau ar-lein.

We are lucky to have ***Miss Lucy Parry and Mrs Vanessa Rose’s*** expertise in the field of Dyslexia and they both work on a weekly basis with different pupils. Their sessions are a fun mixture of worksheets, games and online activities.

# Tîm Diogelu Plant
# Safeguarding Team

Dyma dîm diogelu Ysgol Dyffryn Conwy. Maen nhw yma i'ch helpu gydag unrhyw beth a allai fod yn eich poeni neu os ydych chi'n teimlo y gallai fod angen eu help ar rywun rydych chi'n ei adnabod.




Here is the Ysgol Dyffryn Conwy safeguarding team. They are here to help you with anything that may be bothering you or if you feel that someone you know may need their help

# BWLIO
# BULLYING

**Beth yw bwlio? / What is bullying?**

Ymddygiad niweidiol sydd:

*Harmful behaviour which is:*

- Dro ar ôl tro / Repeated
- Wedi'i dargedu at berson / Targeted towards a person

**Mae sawl math o fwlio gwahanol:**

*It takes many forms and can include:*

- Seibr fwlio / Cyberbullying
- Ymosodiad corfforol / Physical assault
- Pryfocio / Teasing
- Gwneud bygythiad / Making threats
- Galw enwau / Name calling



# Y Tim Bugeiliol

## Beth yw pwrpas y Tîm Bugeiliol?

- Cefnogi pob disgybl i gyrraedd eu potensial
- Gwobrwyo disgyblion
- Helpu disgyblion i delio hefo sefyllfaoedd gwahanol

## What is the purpose of the Pastoral Team?

- Support every pupil to reach their potential
- Reward pupils
- Help pupils to deal with different situations



# Llais Disgyblion
# Pupil Voice

Mae llais a barn disgyblion yn bwysig iawn i ni fel ysgol. Mae'r Cyngor Ysgol yn rhan ganolog o fywyd Ysgol Dyffryn Conwy. Etholir cynrychiolwyr i'r Cyngor Ysgol drwy drefn fforymau dosbarth a fforymau blwyddyn yn flynyddol ym mis Medi.

The voice and opinions of pupils are very important to us as a school. The School Council is an integral part of Ysgol Dyffryn Conwy. Representatives to the School Council are elected through the form of class forums and year forums annually in September

| | | |
|---|---|---|
| **PAWB** | **FFORWM DOSBARTH / CLASS FORUM** | **EVERYONE** |
| | ↓ | |
| **CYNRYCHIOLWYR DOSBARTH** | **FFORWM BLWYDDYN / YEAR FORUM** | **CLASS REPRESENTATIVE** |
| | ↓ | |
| **2 AELOD O BOB BLWYDDYN** | **CYNGOR YSGOL / SCHOOL COUNCIL** | **2 MEMBERS OF EACH YEAR** |

# Cyngor Ysgol
# School Council

Dyma'r Cyngor Ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25.

Here is the School Council for the 2024/25 academic year.



# Rhaglen Addysg Gorfforol
# Physical Education Programme

Yr ydym ni eisiau i bob disgybl fod yn hapus, yn iach ac yn hyderus yma yn Ysgol Dyffryn Conwy. Heb y sgiliau, yr hyder a’r cymhelliant priodol i fod yn egnïol yn gorfforol, mae’r siawns o hyn yn llawer llai tebygol.

Yr ydym ni yn Ysgol Dyffryn Conwy eisiau i bawb fod yn llythrennog yn gorfforol. Bydd pob disgybl yn derbyn cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy gydol ei cyfnod yn yr ysgol er mwyn cadw’n iach.





We want every pupil to be happy, healthy and confident here at Ysgol Dyffryn Conwy. Without the appropriate skills, confidence and motivation to be physically active, the chances of this are far less likely

We at Ysgol Dyffryn Conwy want everyone to be physically literate. All pupils will have the opportunity to participate in sport and physical activity throughout their time at school in order to keep healthy



# Gweithgareddau Addysg Gorfforol
# Physical Education Activities

Drwy ymarfer mae sicrhau perffeithrwydd ac i fod yn llythrennog yn gorfforol. Yr ydym yn cynnig llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i ddisgyblion ymarfer eu sgiliau. Mae ein rhaglen o weithgareddau yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol yn gynhwysfawr ac rydym yn ymfalchïo mewn cyfranogiad rheolaidd.

Ymysg y cyfleoedd gwahanol, mae'r ysgol yn cystadlu'n rheolaidd mewn rygbi, pêl-droed, athletau, trawsgwlad, wal dringo a beicio mynydd.





Exercise involves achieving perfection and being physically literate. We offer many opportunities in school for pupils to practice their skills. Our program of lunchtime and after school activities is comprehensive and we take pride in regular participation.

Among the various opportunities, the school regularly competes in rugby, football, athletics, cross country, climbing wall and mountain biking.







# Dathlu Llwyddiant
# Celebrating Success

Yn Ysgol Dyffryn Conwy rydym yn hoffi dathlu a gwobrwyo ymddygiad da. Rydym yn gwneud hyn drwy ddulliau gwahanol ar draws blynyddoedd ysgol, gan gynnwys cardiau canmol, neges destun adref a gwobrau diwedd tymor

Bydd yr holl newyddion da a llwyddiant ein digyblion ar ein gwefan: a'n cyfrif Facebook, X ac Instagram

@ysgdyffrynconwy
@PEDyffrynconwy

Ysgol Dyffryn Conwy

Ysgol Dyffryn Conwy




At Ysgol Dyffryn Conwy we like to celebrate and reward good behaviour. We do this by rewarding through various different means across school years, including achievement cards, texts home and end of term rewards.

All the news and pupils successes will be on our website and our Facebook, X and Instagram feeds.

@ysgdyffrynconwy
@PEDyffrynconwy

Ysgol Dyffryn Conwy

Ysgol Dyffryn Conwy

# Cwestiynau Cyffredin
# Frequently asked Questions

***Beth fydd yn digwydd os bydd fy mhlentyn yn brifo tra yn yr ysgol? Ble byddai'n rhaid iddi nhw fynd?***

***What happens if my child gets hurt while at school? Where would they have to go?***

Er bod yr ysgol yn le diogel, mae damweiniau yn gallu digwydd! Os ydych eich plentyn yn brifo neu syrthio, yna gelli ddod i'r ***SWYDDFA WRTH Y BRIF MYNEDFA*** ble mae gennym staff cymorth cyntaf sydd ar ddyletswydd bob dydd ac yma i helpu.

Although school is a safe place, accidents can happen! If you get hurt or fall then you can come to the ***MAIN ENTRANCE OFFICE*** where we have first aid staff on duty every day, and are here to help.

***Beth dwi fod i wneud os ydw i'n teimlo'n sal tra yn yr ysgol?***

***What am I supposed to do if I feel unwell while at school?***

Os wyt ym teimlo'n sal tra yn yr ysgol mae hi mor bwysig dy fod yn dweud wrth ys athro sydd yn dy ddysgu ar y bryd neu aelod o staff wrth ymyl. Ein cyfrifoldeb ni ydi ffonio adref er mwyn gadael i'r cartref wybod agwneud trefniadau. Bydd aelod o staff yn dod a chdi i'r ***SWYDDFA WRTH Y BRIF MYNEDFA*** ble mae gennym staff cymorth cyntaf sydd ar ddyletswydd bob dydd, ac yma i helpu.

If you feel unwell while at school it is important to tell the teacher who is currently teaching you or a member of staff nearby. It is our responsibility to phone home to let the home know and make arrangements. A member of staff will bring you to the ***MAIN ENTRANCE OFFICE*** where we have first aid staff on duty every day and here to help.

# Cwestiynau Cyffredin
# Frequently asked Questions

## *Pwy sydd yna i helpu os ydw i'n poeni am rywbeth?*

## *Who is there to help if I am worried about something?*

Mae na staff arbenning iawn yn Ysgol Dyffryn Conwy sydd yna i helpu ein dysgwyr. Dan ni'n eu galw nhw'n Diwtoriaid Dosbarth, Athrawon Pwnc, Rheolwr Cynnydd, Uwch Dim Arwain Staff Bugeiliol a Cymorthyddion. OS yn poeni mae'n bosib i chi:

- Siarad efo'ch tiwtor (Bob bore)
- Siarad gyda athrawon pwnc (Pryder personol neu pwnc)
- Siarad a gweld Mrs Leah Jones - Arweinydd Cynnydd
- Siarad gyda staff bugeiliol a Cymorthyddion
- Cofiwch mae drws aelodau'r uwch dim arwain ar agor ac yno i'ch helpu

**MAE POB AELOD O STAFF YN BAROD I HELPU**

*All staff members are very special in Ysgol Dyffryn Conwy, they are there to help our learners. We call them Form Tutors, Subject Teachers, Progress Manager, Senior Leadership Team, Pastoral Staff and Teaching Assistants. If you have any concerns you may:*

- *Talk to your tutor (Every morning)*
- *Talk to a subject teacher (Personal or subject concerns)*
- *Speak and see Mrs Leah Jones - Progress Leader*
- *Talk to Pastoral staff or Teaching Assistants*
- *Remember the door is always open to speak to the senior leadership team, they are there to help you*

***ALL STAFF MEMBERS ARE READY TO HELP***

## *Beth os mae rhywun yn gas efo fi neu yn fy mwlio fi?*

## *What if someone is unpleasant with me or bullies me?*

Yn gyntaf, mae'n bwysig dweud bod Ysgol Dyffryn Conwy yn ysgol gyfeillgar iawn. Mae ein dysgwyr hŷn yn falch o groesawu plant newydd i deulu ein hysgol ni. Ond, os oes rhywun yn dy drin mewn ffordd sydd yn dy boeni di, fedri di fynd syth at dy tiwtor dosbarth neu un o'r tîm bugeuliol. Mae'n bwysig iawn i ni fod pawb yn teimlo'n saff ac yn hapus yn yr ysgol bob tro.

Firstly, it is important to say that Ysgol Dyffryn Conwy is a very friendly school. Our older learners are delighted to welcome new children into our school family. However, if you are being treated in a way that worries you, you can go straight to your form tutor or one of the pastoral team. It is very important to us that everyone always feels safe and happy in school.

# FFONAU SYMUDOL

## CYRRAEDD YR YSGOL - BYDDWCH YN...

YONDR

Diffodd eich ffôn

Datgloi eich sach gan ddefnyddio'r 'Sylfaen Datgloi'.

Rhoi eich ffôn a'ch clustffonau yn y sach, ei gadw yn ddiogel a'i roi yn eich bag.

## GADAEL YR YSGOL - BYDDWCH YN...

Datgloi eich sach gan ddefnyddio'r 'Sylfaen Datgloi'

Tynnu eich ffôn a/neu glustffonau o'r sach




Cadw eich sach yn ddiogel a rhoi eich sach yn eich bag tan y diwrnod canlynol

Ers mis Medi 2024 yr ydym wneud gwneud ein hysgol yn ofod di-ffôn i gefnogi lles plant a gwella addysgu a dysgu. Codir tâl o £20 y sach am unrhyw golled neu ddifrod i'r sach. Os na fydd gan unigolion eu sach neu wedi golli disgwylir iddynt dalu £20 drwy Parent Pay am un newydd.

Since September 2024 we have been making our school a phone-free space to support children's welfare, in order to improve teaching and learning. A charge of £20 per pouch will be made for any loss or damage to the pouch.
If individuals do not have their pouch or have lost it they are expected to pay £20 via Parent Pay for a new one.

# Cyfathrebu
# Communication

**Mae yna sawl ffodd gwahanol y gallwch chi a’ch rhieni gyfathrebu gyda’r ysgol am wahanol faterion.**

**There are many different ways in which you and your parents can communicate with the school about different aspects.**

ParentPay

Hwyluso’r broses o wneud taliadau am ginio ysgol a theithiau addysgiadol ar-lein.

Facilitating the process of paying online for school meals and educational trips.

Schoolcomms
all together, smarter

Hwyluso cyfathrebu rhwng yr ysgol a’r cartref. Dulliau cyfathrebu yn cynnwys negesuon testun ac e-byst yn ogystal â llythyrau.

Facilitating communication between school and home. Methods of communication include text messages and e-mails as well as letters.

Gwefannau cyfryngau cymdeithasol ys ysgol at ddibenion rhannu gwybodaeth ac adrodd straeon yn ogystal â dathlu llwyddiannau.

The school’s social media websites for sharing information and reporting as well as celebrating achievemnets.



Gwefan ysgol sy’n cynnwys gwybodaeth allweddol i rieni a dysgwyr.

School website that includes key information for parents and learners.




Platform digidol yr ysgol â chasgliad eang o adnoddau ar gyfer dysgu o bell.

The school’s digital platform with a wide collection of resources for distance learning.

Hwb®

Mynediad am ddim at Ebost, Office 365, Google Classroom, Flipgrid a holl adnoddau Hwb ar gyfer disgyblion a staff.

Free access to Email, Office 365, Google Classroom, Flipgrid and all Hwb resources for pupils and staff.




Cylchlythyr digidol Y BONT tymhorol yr ysgol at ddibenion rhannu gwybodaeth ac adrodd straeon yn ogystal â dathlu llwyddiannau.

The schools termly digital newsletter Y BONT for sharing information and reporting as well as celebrating achievements.



Fforwm Rhieni / Gwarcheidwaid. Cyfle i drafod agweddau amrywiol o fywyd a gwaith yr ysgol.

Parent / Guardian Forum. An opportunity to discuss various aspects of school life and work.

ClassCharts

Ein platfform newydd i gofrestru presenoldeb ac ymddygiad holl ddisgyblion yr ysgol. Gall rhieni / gwarcheidwaid gael mynediad i'r platfform hwn gyda'u manylion mewngofnodi i wirio'r data ar gyfer eu plentyn.

Our new platform to register the attendance and behaviour of all pupils in the school. Parents / Guardians can access this platform with their log in details to check the data for their child.



YSGOL DYFFRYN CONWY
Ffordd Nebo
Llanrwst
Conwy
LL26 0SD

Rhif Ffôn / Telephone: 01492 642800
Rhif Facs / Fax: 01492 642801

Gwefan / Website: www.ysgoldyffrynconwy.org
E-bost / Email: cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk

**PENNAETH / HEAD**
Mr Owain Gethin Davies